Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Galwad am Dystiolaeth

## Ymchwiliad Pwyllgor i Gam-drin Domestig

Mae'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wedi dewis cynnal ymchwiliad i gam-drin domestig; ac mae'n galw ar y rheiny sydd â diddordeb neu arbenigedd yn y maes hwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

### Cefndir

Amcangyfrifir y bydd trais domestig yn effeithio ar 1 o bob 4 merch ac 1 o bob 6 dyn yn ystod eu bywyd. Mae tua 77% o ddioddefwyr trais yn y cartref yn fenywod. (Ffynhonnell: cyhoeddiad y Swyddfa Gartref Troseddau yng Nghymru a Lloegr 2006-07). Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth trais domestig yn 2005. Mae cam-drin domestig yn cynnwys nid yn unig trais corfforol ond mae hefyd yn cynnwys, er enghraifft, cam-drin emosiynol ac arwahanrwydd oddi wrth ffrindiau, teulu neu ffynonellau cymorth eraill posibl. Mae amrywiaeth o sefydliadau yn ariannu ac yn darparu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig; Llywodraeth Cynulliad Cymru, Y Swyddfa Gartref a'r sector gwirfoddol.

### Cylch Gorchwyl

Bydd y Pwyllgor yn adolygu:

- Y modd y caiff strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig ei chyflawni;
- Y ddarpariaeth o gymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys y gefnogaeth a ddarperir i dystion yn y system cyfiawnder troseddol;
- Yr adnoddau a ddyrennir gan gyrff perthnasol megis, Llywodraeth y Cynulliad, y Swyddfa Gartref, asiantaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i weithredu polisïau cam-drin domestig
- Y ddarpariaeth o ymyriadau gorfodol a gwirfoddol sydd wedi eu hanelu at y sawl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig; gan gynnwys darparu adnoddau angenrheidiol i gefnogi ymyriadau o'r fath;

Chris Reading
Clerc i'r Pwyllgor
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8164
e-bost: chris.reading@wales.gsi.gov.uk

Chris Reading
Clerk to the Committee
Assembly Parliamentary Service
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Phone: 029 2089 8164
e-mail: chris.reading@wales.gsi.gov.uk

- Cynlluniau sydd wedi eu hanelu at atal cam-drin domestig; er enghraifft, rhaglenni ysgolion a chynlluniau codi ymwybyddiaeth.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn:

- Gwneud argymhellion o ran y camau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem o gam-drin domestig yng Nghymru.

Rydym yn gofyn am eich barn ar unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r testun hwn, gan gynnwys:

- Argaeledd a hygyrchedd cymorth ar gyfer grwpiau gwahanol; gan gynnwys gwasanaethau cynghori ar gyfer – dynion, merched, plant, pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn a phobl anabl;

- Y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i oedolion a phlant sydd wedi dioddef camdriniaeth rywiol o fewn sefyllfa ddomestig;

- Ymateb gwahanol sectorau i gam-drin domestig, gan gynnwys, asiantaethau cyfiawnder troseddol, iechyd a gofal cymdeithasol;

- Sut y caiff y strategaeth genedlaethol ei chyflawni ar lefel leol, y ffyrdd y mae cyrff ac asiantaethau gwahanol yn gweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau'r ymateb gorau;

- Dyraniad adnoddau i fynd i'r afael â cham-drin domestig ac unrhyw wrthdaro posibl rhwng nod ac amcanion gwahanol ffynonellau arian;

- Tystiolaeth ystadegol ar gyfradd a natur cam-drin domestig, yn cynnwys achosion o lofruddio, cyfraddau collfarnu, tueddiadau daearyddol;

- Effaith arwahanrwydd sy'n cael ei ddwysau gan, er enghraifft, ffactorau daearyddol, diwylliannol ac unigol; a

- Prosesau ar gyfer monitro a gwerthuso canlyniadau.

Gwahoddir rhai sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i glerc y pwyllgor yn y cyfeiriad isod, i gyrraedd ddim hwyrach na dydd Gwener 9 Mai 2008. Os yw'n bosibl, a fyddech cystal â darparu fersiwn electronig trwy e-bost i'r cyfeiriad canlynol:

Community.Culture.Comm@Cymru.gsi.gov.uk

Nodwch a fyddech â diddordeb mewn cyflwyno'ch barn i'r Pwyllgor yn bersonol.

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu

Chris Reading
Clerc i'r Pwyllgor
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8164
e-bost: chris.reading@wales.gsi.gov.uk

Chris Reading
Clerk to the Committee
Assembly Parliamentary Service
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Phone: 029 2089 8164
e-mail: chris.reading@wales.gsi.gov.uk

mewn tystiolaeth ategol i adroddiad. Cewch eich enwi fel awdur y dystiolaeth, oni ofynnwch yn wahanol, er na fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth arall a ystyrir yn ddata personol.

Dylech fod yn ymwybodol, fodd bynnag, os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu er na chafodd ei chyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ar wahân i ddata personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu os nad ydych yn dymuno i'ch enw, fel awdur y dystiolaeth, gael ei ddatgelu; rhaid nodi hyn yn glir, ynghyd â'ch rhesymau dros atal y deunydd dan sylw. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Chris Reading
Clerc i'r Pwyllgor
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8164
e-bost: chris.reading@wales.gsi.gov.uk

Chris Reading
Clerk to the Committee
Assembly Parliamentary Service
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Phone: 029 2089 8164
e-mail: chris.reading@wales.gsi.gov.uk